# Gweithgaredd 1: Drama Ddaearegol

## Cyswllt cwricwlwm Cymru:

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Y Dyniaethau
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Mathemateg a Rhifedd

## Cyswllt cwricwlwm Lloegr:

Hanes (sefydlu naratif clir ar draws cyfnodau, newidiadau yn Lloegr); Saesneg (dealltwriaeth, iaith lafar; Mathemateg (gwerth rhifau a lle)

**Amser:** 1-2 awr

**Adnoddau i'w lawrlwytho:**
Cardiau lleoliad (gall fod ag ochrau dwbl)

**Adnoddau eraill sydd eu hangen:** Props (dewisol!)

**Maint y grŵp:**
2-6 learners in each group.
Max 9 groups in total.

## Cynllun i'r gweithgaredd:

- Ceisiwch gael hyd i ardal eang, gwastad agored yn y warchodfa. Mae nifer o lefydd o amgylch glannau'r llyn, yn yr olygfan, neu wrth ymyl y ganolfan ymwelwyr a fyddai'n gweithio'n dda.
- Rhowch un cerdyn drama i bob grŵp o ddysgwyr. Os oes gennych ddosbarth bach efallai y byddai'n well gennych roi 2 gerdyn i rai grwpiau yn hytrach na chael grwpiau llai.
- Hefyd, rhowch brop (os am ei ddefnyddio). Mae awgrymiadau prop ar bob cerdyn.
- Rhowch amser penodol (tua 15 munud) i'r dysgwyr i ddarllen eu rhan yn y stori a chynllunio sut y maent am ei actio. Rhowch le iddynt ymarfer. Dylai un person yn y grŵp fod yn adroddwr.
- Gofynnwch i'r dysgwyr eistedd mewn hanner cylch. Gallwch ddechrau drwy ofyn iddynt fod yn y drefn gywir ar gyfer y stori, gan ddefnyddio'r rhifau i helpu.
- Mae'r grŵp yn cymryd eu tro i actio eu rhan yn hanes Cwm Idwal.

### Syniadau gweithgareddau dosbarth y gallwch eu gwneud cyn neu ar ôl eich ymweliad:

- Gallwch ymarfer darllen rhifau mawr gan ddweud y rhifau allan yn uchel.
- Tynnu llun neu ysgrifennu stori ddaearegol llawn Cwm Idwal.

# Taflen waith gweithgaredd 1:
# Drama Ddaearegol (blaen)

## Pedwar can miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Roedd llosgfynyddoedd yn ffrwydro'n wyllt. Oerodd y lafa a ffurfio i graig y mynyddoedd.

## Tri chan miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Yma roedd coedwig gorsiog drofannol lle grwydrai dinosoriaid. Ychydig a wyddant y byddant i gyd yn diflannu.

## Miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Yn ystod yr Oes Iâ diwethaf roedd hi mor oer fel y bu i'r mynyddoedd gael eu gwisgo lawr gan grynswth o rew a elwid yn rhewlifau. Roedd mamothiaid yn byw yma yn y cyfnod yma.

## Deg mil o flynyddoedd yn ôl.

Pan ddaeth y ddaear i fod yn gynhesach, toddodd y rhew a daeth y coedwigoedd i dyfu unwaith eto. Dechreuodd eirth a bleiddiaid fyw yma.

## Chwe mil o flynyddoedd yn ôl.

Gan fod planhigion ac anifeiliaid yn bodoli, gallai pobl ddechrau byw yma. Roeddynt yn helwyr, yn byw mewn llwythau bach yn y goedwig.

## Mil o flynyddoedd yn ôl.

Torrodd pobl y coed i lawr i greu caeau i ffermio defaid. Dechreuodd ffermydd, pentrefi, ffyrdd ac ysgolion gael eu hadeiladu.

## Cant a hanner o flynyddoedd yn ôl.

Daeth Charles Darwin i ymweld â Chwm Idwal ym 1831. Darganfyddodd ffosiliau yn y creigiau a chreu ei ddamcaniaeth 'Snowdonia Ice Sheet' oes yr iâ.

## Rhwng pum deg a chan mlynedd yn ôl.

Dynodwyd Cwm Idwal y Warchodfa Natur gyntaf yng Nghymru yn 1954. Mae nifer o blanhigion prin yma y mae gwyddonwyr eisiau eu gwarchod.

## Rŵan.

Mae miloedd o ymwelwyr yn dod i Warchodfa Natur Cwm Idwal bob blwyddyn. Maent yn hoff o fwynhau'r golygfeydd, cerdded eu cŵn, dringo ac ymlacio wrth y llyn.

# Taflen waith gweithgaredd 1:
# Drama Ddaearegol (cefn ac awgrymiadau o bropiau)

| | | |
|---|---|---|
| **1,000,000 o flynyddoedd yn ôl.**<br>Oes yr Iâ<br>Tegan Mamoth | **300,000 o flynyddoedd yn ôl.**<br>Dinosoriaid<br>Tegan dinosor | **400,000 o flynyddoedd yn ôl.**<br>Llosgfynyddoedd<br>Defnydd coch/ oren |
| **1,000 o flynyddoedd yn ôl.**<br>Ffermio defaid<br>Tegan dafad | **6,000 o flynyddoedd yn ôl.**<br>Pobl yn dechrau byw yn Eryri<br>Defnydd ffwr ffug/ croen llewpard | **10,000 o flynyddoedd yn ôl.**<br>Tyfiant coedwigoedd<br>Tegan blaidd/ arth |
| **Rŵan.**<br>Miloedd o ymwelwyr<br>Map cerdded | **50 mlynedd yn ôl.**<br>Gwarchodfa Natur Genedlaethol cyntaf yng Nghymru<br>Ysbienddrych | **150 o flynyddoedd yn ôl.**<br>Charles Darwin<br>Chwyddwydr |